Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar
# Cylch Meithrin y Drenewydd
# Y Caban
# Ysgol Dafydd Llwyd
# Stryd y Parc
# Y Drenewydd
# Powys
# SY16 1EG

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**


**Mr Eifion R Morgan**

**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin y Drenewydd yn cyfarfod mewn caban symudol ar gampws Ysgol Dafydd Llwyd, sydd ar gyrion y dref. Mae`n Gylch cyfrwng Cymraeg ac mae`r rhan fwyaf o`r plant yn symud i Ysgol Dafydd Llwyd, ysgol gyfrwng Cymraeg ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae`r plant yn medru dod i`r Cylch yn y tymor maen nhw`n 3 oed, ar ôl mynychu fel arfer y ddarpariaeth Dechrau`n Deg a lleolir yn yr ystafell drws nesaf. Ar ôl gadael y Cylch, ar y cyfan, maen nhw`n dechrau eu bywyd ysgol yn y tymor maen nhw`n 4 oed. Daw`r plant sy`n dod i`r Cylch o`r dref a`r cymunedau gwledig cyfagos. Daw nifer o blant o gefndiroedd difreintiedig. Nid oes un o`r plant sydd yno ar hyn o bryd yn dod o gymunedau ethnig lleiafrifol ac nid oes yr un plentyn wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, mae`r Cylch wedi croesawu plant tebyg yn y gorffennol.

Yn ieithyddol, daw bron pob plentyn o gartrefi lle siaredir Saesneg. Mae`r ardal yn gymuned Seisnigaidd ac ychydig o Gymraeg, os o gwbwl a glywir yn y dref.

Mae`r caban symudol wedi`i uwchraddio yn ddiweddar drwy ychwanegu cladin i`r tu allan ac mae hyn wedi ei wella`n sylweddol. Mae mynediad i`r brif ystafell drwy gyntedd bach. Mae hysbysfwrdd yn darparu gwybodaeth i rieni. Mae`r brif ystafell wedi`i gwahaniaethu i ardaloedd o weithgareddau, gyda chegin fach sydd wedi ei lleoli fel nad yw o fewn cyrraedd y plant. Tu allan, mae gan y Cylch fynediad at iard ac ardal chwarae yr ysgol. Mae cynlluniau ar waith i ail-leoli`r ysgol a`r Cylch yn y dyfodol agos.

Ar hyn o bryd, mae 33 ar y gofrestr ac ariennir 32 ohonynt. Mae`r Cylch wedi`i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn i fyny at 12 o blant mewn unrhyw un sesiwn.

Mae`r Cylch yn cyfarfod bob bore o`r wythnos, 9 y.b. – 11.30 y.b. ac ar Ddydd Mawrth, Mercher a Gwener rhwng 1.30 y.p. – 3.30 y.p. yn ystod tymor yr ysgol. Cafodd y Cylch ei arolygu yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2012) ac nid oedd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella wedi`u nodi. Roedd arolygiad diwethaf Estyn yn 2005. Mae`r holl argymhellion wedi cael sylw. Mae`r Cylch wedi llwyddo i gael statws Cylch Rhagorol gan Fudiad Ysgolion Meithrin yn 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

<u>Prif arfarniad</u>

- Mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da ymhob maes dysgu ac yn cyflawni safonau da.
- Mae gan bron pob plentyn _fedrau cyfathrebu_da fel bod eraill yn eu deall. Er eu bod yn fwy hyderus yn defnyddio Saesneg, mae eu medrau siarad Cymraeg yn datblygu`n dda.
- Mae gan bob plentyn agwedd bositif at ddysgu gan ddangos diddordeb yn eu gwaith.
- Mae ymddygiad y plant yn dda iawn; maen nhw`n ystyriol, yn gwrtais ac yn uniaethu â`i gilydd ac oedolion yn dda.
- Mae`r cynllunio wedi`i gyfeirio`n dda at annog plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen.
- Mae`r ymarferwyr yn fodelau iaith da gyda dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant.
- Mae`r tasgau yn cyfateb yn dda â gallu`r plant.
- Mae`r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles plant, gan gynnwys trefniadau diogelu plant, wedi`i sefydlu`n dda.
- Mae`r Cylch yn arddangos ethos rhagorol sy`n hollol gynhwysol ac sy`n annog plant i gymryd cyfrifoldeb.
- Mae`r staff yn cydweithio`n dda iawn gyda synnwyr o bwrpas. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o`r plant sy`n cael eu gwireddu`n ymarferol.

**Rhagolygon gwella**

- Mae`r gweithdrefnau hunanarfarnu yn fanwl ac wedi cael eu gweithredu`n gyson.
- Mae`r staff wedi ymgymryd ag amrywiaeth dda o gyrsiau hyfforddi ac yn agored i newid.
- Mae partneriaethau strategol da iawn ar waith. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau â mudiadau lleol i wella a chefnogi addysg a lles y plant.
- Mae cysylltiadau effeithiol iawn ar waith gyda`r ysgol drwy`r athrawes Dderbyn, athrawes ymgynghorol yr ALI a swyddog datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin.

- Mae`r Pwyllgor Rheoli sydd newydd ei sefydlu yn gefnogol iawn o`r Cylch.
- Cydnabyddir y Cylch fel enghraifft o arfer dda ac wedi cael ymwelwyr wrth staff o fudiadau tebyg.

## Argymhellion

Mae angen i'r Cylch:

A1 barhau i ddarparu a chynnal darpariaeth addysgol o ansawdd da;

A2 mireinio`r gweithdrefnau asesu ymhellach er mwyn nodi`r medrau mae plant unigol wedi`u caffael ac i nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y Cylch yn llunio cynllun sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob un o`r plant yn gwneud cynnydd da ymhob maes dysgu ac yn cyflawni safonau da. Mae pob un o`r plant yn dyfalbarhau`n dda ar dasgau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig ar weithgareddau sy`n datblygu eu dysgu.

Mae gan bron pob un o`r plant fedrau cyfathrebu da. Er eu bod yn fwy hyderus yn defnyddio Saesneg, mae`u geirfa yn y Gymraeg yn datblygu`n dda. Maen nhw`n deall cyfarwyddiadau sylfaenol gan ymateb yn briodol. Mae pob un o`r plant yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad ac yn hapus i ailadrodd geiriau newydd. Mae pob un o`r plant yn mwynhau gwrando ar storïau ac mae llawer yn ymateb yn frwdfrydig. Maen nhw`n ymuno gyda chaneuon actol a rhigymau Cymreig. Nodwedd da a nodedig yw diddordeb y plant mewn lyfrau. Pan maen nhw`n cael eu hannog, maen nhw`n dewis eu hoff storïau ac yn dilyn y testun a`r lluniau gan ddal llyfrau yn briodol ac yn ofalus.

Mae llawer o blant yn arbrofi gyda chreu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer marcio gan gynnwys penseli, peniau ffelt a sialc. Maen nhw`n deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol sylfaenol fel "mawr" a "bach". Maen nhw`n adnabod ac yn enwi siapiau fel "sgwarau, trionglau a chylchoedd". Mae pob un o`r plant yn cyfrif gyda`i gilydd fel wrth rifo sawl plentyn sy`n bresennol wrth gofrestru yn y bore. Mae gan ychydig o blant ddealltwriaeth dda o batrymau ac yn medru dilyniannu gwrthrychau yn seiliedig er enghraifft ar wahanol liwiau.

Mae llawer o blant yn mwynhau defnyddio`r cyfrifiadur ac yn dangos medrau da, fel defnyddio`r "lygoden" a symud delweddau ar y sgrîn i greu patrymau syml. Mae`r plant yn gyfarwydd â ffonau symudol a meicroffonau hefyd.

**Lles: Da**

Mae pob un o`r plant yn mwynhau dysgu ac yn awyddus i gymryd rhan ymhob weithgaredd. Maen nhw`n dangos diddordeb yn y gwaith ac yn cynnal eu canolbwyntio am gyfnodau arwyddocaol. Mae pob un o`r plant, yn ddi-eithriad, yn dangos ymddygiad da, gan fod yn ystyriol ac yn gwrtais i`w gilydd ac i oedolion ac ymwelwyr.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn datblygu dealltwriaeth briodol o faterion iechyd yn unol â`u hoedran. Maen nhw`n adnabod pwysigrwydd glanhau eu dannedd a bwyta`n iach. Mae pob un o`r plant yn teimlo`n ddiogel yn y Cylch ac wrth gerdded tu allan.

Caiff y plant ddigon o gyfleoedd i wneud penderfyniadau ac mae ganddynt yr hyder angenrheidiol i ddewis hoff  weithgareddau ac i ofyn am gymorth pan fydd angen.

| **Cwestiwn Allweddol 2:    Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae`r profiadau dysgu wedi`u cynllunio`n dda i ennyn diddordeb llawn pob plentyn. Mae`r cynllunio`n hyblyg ac yn cael ei wneud ar y cyd gan gymryd ystyriaeth dda o ddiddordebau`r plant, a thrwyddi draw, wedi`i gynllunio`n dda i sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen.  Mae`r cwricwlwm a phrofiadau`r plant yn adeiladu`n systematig ar eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol.

Mae`r profiadau dysgu yn annog plant i ddod yn ddysgwyr annibynnol ond i gyd-weithio pan fydd angen.  Caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau dros bob maes dysgu, yn enwedig eu medrau creadigol a`u dealltwriaeth o bethau byw.

Ceir cyfleoedd da i`r plant ddatblygu eu medrau sy`n cael ei hyrwyddo gan yr agwedd traws-gwricwlaidd a defnyddir.  Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu`r iaith Gymraeg yn cael ei chyfoethogi gan y staff sy`n fodelau rôl da sy`n sicrhau mai Cymraeg yw iaith y Cylch.  Mae`r Gymraeg yn iaith fyw felly, ac yn annog y plant i ddefnyddio`r iaith yn naturiol.  Mae traddodiadau a dathliadau diwyllliant Cymru yn amlwg hefyd fel yr oedd yn amlwg yn ystod yr arolygiad ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Caiff syniadau`r plant am gynaliadwyedd eu datblygu drwy ailgylchu eitemau fel cartonau llaeth a phapur.

**Addysgu:  Da**

Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad da a gwybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.  Mae pob plentyn, beth bynnag eu gallu, yn cael eu cefnogi`n dda ac mae`r rhai mwy abl a dawnus yn elwa o weithgareddau ymestynnol.

Mae`r gweithgareddau`n cynnwys cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio/harwain gan ymarferwyr.  Mae cydbwysedd da o weithgareddau sylfaenol sydd wedi`u cynllunio i atgyfnerthu`r dysgu a gwaith heriol ar gyfer y mwy abl.  Mae hunan hyder y plant yn eu galluogi i weithio`n annibynnol, ac yn bwysig iawn, mae gan yr ymarferwyr y gallu i werthfawrogi pryd i ymyrryd. Mae`r ymarferwyr hefyd yn weithgar drwy arfarnu ac asesu cyflawniad a chynnydd plant.  Mae`r strategaeth ymddygiad positif hefyd yn effeithiol drwy gynnal yr awyrgylch dysgu da iawn sydd yn y Cylch.

Mae`r ymarferwyr yn asesu cyflawniad plant yn rheolaidd ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi gyda`r dyddiad.  Mae hyn yn rhoi syniad da o gynnydd plant.  Mae`r

cynllunio wedi ei selio ar wybodaeth yr ymarferwyr o`r plant sy`n sicrhau dilyniant a pharhad yn y gwaith.  Caiff gweithgareddau ymestynnol eu paratoi hefyd i`r mwy abl.

Ar y gorau, mae`r arsylwadau o gyflawniad y plant yn nodi lefel eu medrau, fel eu gallu i adnabod siâp arbennig ym mathemateg neu eu gallu i gyfrif i rif arbennig. Drwyddi draw, fodd bynag, mae tuedd i`r cofnodion o gyflawniadau`r plant fod yn ddisgrifiadol ac er bod hyn yn ddefnyddiol, mae`n llai defnyddiol mewn nodi`r medrau mae`r plant wedi`u cyflawni ac amlygu`r camau nesaf yn eu dysgu.

Mewn trafodaeth, dywedodd rhieni eu bod yn medru mynd at staff y Cylch ar unrhyw adeg er mwyn cael gwybodaeth am eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.  Mae`r Cylch yn darparu`r plant ag amgylchedd dysgu tawel a chefnogol sy`n meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn llwyddiannus.  Ceir fframwaith ymddygiad sy`n cael ei deall yn dda ac sy`n helpu`r plant i gymryd cyfrifoldeb personol ac i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir a beth yw ymddygiad derbyniol.  Maen nhw`n dysgu sut i rannu a chyd-weithio â`i gilydd.

Mae ymweliadau â`r amgylchedd uniongyrchol yn galluogi plant i ddatblygu synnwyr o ryfeddod am y byd o`u cwmpas.  Mae ymweliadau ymhellach i ffwrdd o fewn y gymuned  ac ymwelwyr i`r Cylch yn cyflwyno plant i`r bobl sy`n gofalu amdanynt.

Defnyddir gwasanaethau arbenigol yn dda yn ôl yr angen i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Yn y gorffennol, mae hyn wedi profi`n effeithiol ac yn fuddiol i`r unigolion dan sylw.  Mae`r plant sydd wedi`u nodi ag ADY yn cael mynediad llawn i bob maes dysgu.  Maen nhw wedi cael eu cefnogi`n dda (1:1 pan fydd angen) a defnyddir asiantaethau allanol yn dda.  Mae rhieni wedi cael eu hysbysu a`u cynnwys yn dda ar bob cam.

Mae`r trefniadau diogelu yn dda. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac arweinydd y Cylch yw`r person sy`n gyfrifol am ddelio â materion diogelu plant.  Mae`r polisïau a`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amdiffyn Plant Cymru Gyfan (2008). Yn ddiweddar iawn, mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant eu gwerthfawrogi fel unigolion a lle caiff eu hanghenion eu cydnabod.  Mae gan yr holl blant, beth bynnag eu hanghenion neu allu, hawl gyfartal i`r cwricwlwm ac yn cael eu hintegreiddio`n dda i`r gymuned.  Mae`r plant yn rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu

ymddygiad gormesol.  Mae gweithdrefn gwyno ar gael ond nid oes angen wedi codi i`w defnyddio.

Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad da.  Mae disgon o adnoddau addas i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Mae`r lleoliad wedi`i wella yn ddiweddar ac yn cael ei ddefnyddio`n effeithiol.  Mae`r Cylch yn elwa o fedru defnyddio rhai o gyfleusterau`r ysgol ac mae mynediad hawdd i`r amgylchedd lleol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae`r arweinyddiaeth yn darparu`r Cylch â chyfeiriad clir i`r gwaith a synnwyr o bwrpas.  Mae`n canolbwyntio`n dda ar ddarparu`r plant â`r profiadau addysgol gorau posibl a datblygu eu potensial yn llawn.  Mae`r staff yn cydweithio`n dda iawn ac yn ategu ei gilydd yn eu rolau a`u cyfrifoldebau.  Maen nhw`n rhannu gwerthoedd cyffredin ac yn creu ethos gadarnhaol yn y Cylch.  Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o`r plant ac yn eu gwireddu`n ymarferol.  Mae cysylltiadau da iawn wedi`u sefydlu gyda rhieni a gofalwyr.

Mae`r pwyllgor rheoli a sefydlwyd yn ddiweddar yn weithgar yn eu cefnogaeth o`r Cylch.  Maen nhw wedi cymryd eu dyletswyddau cyfreithiol yn gyflym ac yn cael gwybodaeth dda am berfformiad y lleoliad.  Drwyddi draw, mae arwyddion y bydd y pwyllgor rheoli yn effeithlon iawn wrth ddatblygu a gwella`r Cylch lle`n bosib.

Mae`r Cylch wedi gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau lleol fel y cynllun “Dannedd Iach”.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae`r Cylch wedi defnyddio hunanarfarnu`n gyson i nodi cryfderau a meysydd i`w gwella.  Mae hyn wedi sicrhau bod newidiadau wedi golygu enillion positif ar gyfer y plant.  Mae barn y rhieni a`r plant wedi eu cynnwys lle`n bosib.  Mae`r cynllunio wedi canolbwyntio`n dda ar sicrhau gwelliant.  Mae`r dogfennau cynllunio yn nodi`n glir y targedau ar gyfer gwella, meini prawf llwyddiant, hyfforddiant a chefnogaeth gan nodi`r person sydd â chyfrifoldeb cyffredinol.

Mae`r ymarferwyr wedi mynychu nifer o gyrsiau proffesiynol ac hyfforddiant perthnasol sy`n uniongyrchol berthnasol i ofal plant a diogelwch.  Mae cyrsiau tebyg wedi cael effaith dda ar gynnydd a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r lleoliad wedi sefydlu cysylltiadau da â rhieni. Mae`r rhan fwyaf o`r plant wedi mynchu`r grŵp cyn-meithrin sy`n cyfarfod mewn ystafell gyfagos – maen nhw`n gyfarwydd felly â`r lleoliad. Fodd bynnag, mae`r holl rhieni yn derbyn pecyn defnyddiol o wybodaeth sy`n amlinellu dyddiadau, dogfennau polisi sydd ar gael a disgwyliadau. Mae manylion am y plant yn cael eu cadw hefyd ar gyfer cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Mae`r holl rhieni yn cael eu gwahodd i`r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ac i gymryd rhan weithgar drwy gefnogi gweithgareddau`r Cylch. Hefyd, roedd rhieni wedi derbyn cylchlythyron oedd yn rhoi manylion am themau a fyddai`n rhan o gwricwlwm a gweithgareddau`r Cylch. Yn ogystal, maen nhw`n derbyn cofnod o waith a chyflawniad eu plentyn ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mewn trafodaeth gyda sampl o rieni, roeddent wedi datgan eu boddhad llwyr o`r Cylch a`i staff.

Nodwedd da a nodedig yw`r cyswllt agos sy`n bodoli rhwng athrawes y dosbarth Derbyn yn yr ysgol mae`r plant yn trosglwyddo iddi. Mae hyn, yn enwedig, yn hyrwyddo trosglwyddiad y plant i`r cyfnod nesaf yn eu haddysg ac yn rhoi cyngor gwerthfawr i`r Cylch.

Mae`r cynllunio a`r sicrhau ansawdd hefyd yn cael eu hwyluso gan y cydweithio agos ag athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y Cylch ddigon o adnoddau i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Caiff yr adnoddau eu defnyddio`n dda i ysgogi`r plant i ddysgu. Mae`r cynllunio`n cynnwys trafodaeth o adnoddau efallai y bydd eu hangen yn y dyfodol. Defnyddir yr awyr agored yn dda i ymestyn dysgu`r plant.

Drwydd draw, maw`r Cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Roedd yr holl rhieni/gofalwyr oedd wedi ateb yr holiadur, wedi gwneud sylwadau ar y lleoliad a`r sampl o rieni siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad yn gefnogol iawn o`r Cylch.

Roedd canlyniadau`r holiadur yn nodi bod yr holl ymatebwyr wedi cytuno â`r datganiadau canlynol:

*Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi`r lleoliad hwn **
*Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu`n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.**
*Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da.**
*Mae`r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.*
*Mae`r addysgu yn dda.**
*Mae`r staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.**
*Mae`r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.**
*Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.**
*Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.*
*Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.**
*Rwy`n teimlo`n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.*
*Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.**

* Roedd y mwyafrif o`r rhieni a`r gofalwyr wedi cytuno`n gryf â`r datganiadau:

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae pob plentyn yn mwynhau dod i`r Cylch. Maen nhw`n dangos synnwyr o ddisgwyl ymlaen ar gyfer gweithgareddau`r dydd ac yn cymryd rhan yn gyflym yn y gweithgareddau sydd wedi eu gosod ar eu cyfer.

Mae bron pob plentyn yn ddigon hyderus i weithio`n annibynnol ac mae llawer yn dangos digon o hyder i gynnwys yr Arolygydd yn eu gweithgareddau.

Mae`r plant yn cydweithio`n hapus gyda`i gilydd mewn awyrgylch tawel a chartrefol sy`n rhydd oddi wrth unrhyw ddadlau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)